

CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU Y PWYLLGOR ARCHWILIO

Adroddiad a gyflwynwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 2 Gorffennaf 2008
yn unol ag adran 143(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006

Cyngor Celfyddydau Cymru – Cefnogi Prosiectau Cyfalaf Mawr

Cynnwys	Paragraffau
Crynodeb ac argymhellion	1 – 12
Cyngor Celfyddydau Cymru – Cefnogi Prosiectau Cyfalaf Mawr	
Mae'r modd y mae Cyngor y Celfyddydau yn dethol prosiectau cyfalaf mawr ac yn gwario arnynt wedi'i seilio ar reoli risgiau a chaiff ei yrru'n fwy uniongyrchol gan risgiau	13 – 25
Mae Cyngor y Celfyddydau'n gweithio mewn partneriaeth â nifer o sefydliadau gwahanol ond dylai roi mwy o arweiniad er mwyn ymateb yn llwyddiannus i heriau'r dyfodol	26 – 43
Nid yw Cyngor y Celfyddydau wedi asesu'r canlyniadau o'i raglen gyfalaf hyd yn hyn a dylai wneud hynny er mwyn targedu'r adnoddau mwy cyfyngedig sydd ganddo yn well	44 – 53

ATODIADAU

Atodiad A Cofnod o drafodion Pwyllgor Archwlio'r Trydydd Cynulliad, dydd Iau 13 Mawrth 2008

Crynodeb

1. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru (Cyngor y Celfyddydau) yn ariannu prosiectau gan sefydliadau cleient trydydd parti i adeiladu, ymestyn neu adnewyddu cyfleusterau celfyddydau ledled Cymru. Drwy'r arian a gaiff o'i gyfran o arian y Loteri, mae rhaglen bum mlynedd barhaus Cyngor y Celfyddydau o wariant cyfalaf wedi cyrraedd cyfanswm o tua £7 miliwn y flwyddyn dros yr wyth mlynedd rhwng 1999-2000 a 2006-07, ond y bwriad yw gostwng hyn yn sylweddol i tua £3 miliwn y flwyddyn dros y pum mlynedd nesaf rhwng 2007-08 a 2011-12.
2. Ar sail adroddiad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru¹, casglwyd tystiolaeth ar 13 Mawrth 2008 gan ddau o swyddogion Cyngor y Celfyddydau: Peter Tyndall, y Prif Weithredwr, a Dr Katherine Davies, Pennaeth Ariannu'r Celfyddydau. Archwiliwyd a yw Cyngor y Celfyddydau'n rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â chefnogi prosiectau cyfalaf celfyddydol mawr yn effeithiol.
3. Daethom i'r casgliad fod prosesau Cyngor y Celfyddydau ar gyfer rheoli risg a diogelu ei amlygiad ariannol yn amlwg yn gadarnach na'r hyn oedd yn bodoli yn nyddiau cynnar arian y Loteri. Er hynny, mae rhai heriau sylweddol yn wynebu Cyngor y Celfyddydau: mae'r cyfleusterau celfyddydol cymunedol a chenedlaethol a ddarperir yn parhau i fod yn annigonol, ac mae adnoddau cyfalaf Cyngor y Celfyddydau wedi gostwng yn sylweddol a'i adnoddau ariannu refeniw wedi aros yn eu hunfan. Mae lle i wneud gwell defnydd o'r arian cyfyngedig sydd ar gael drwy ddatblygu partneriaethau gwaith mwy effeithiol gydag awdurdodau lleol, manteisio ar arian Ewropeaidd sydd ar gael a gwerthuso'r canlyniadau a ddaw o fuddsoddi cyfalaf yn y seilwaith celfyddydau hyd yn hyn i lywio buddsoddiad yn y dyfodol.
4. Disgwyliwn i Gyngor y Celfyddydau, felly, fod yn fwy rhyngweithiol o ran parhau i gefnogi datblygiad cyfleusterau celfyddydol a sefydliadau celfyddydol yng Nghymru a hyrwyddo manteision ei fuddsoddiadau yn y celfyddydau. A disgwyliwn i Gyngor y Celfyddydau, wrth gwrs, barhau i wella effeithlonrwydd rhwyddineb defnyddio ei weithdrefnau gweinyddu ei hun ar gyfer ymdrin â grantiau cyfalaf, er budd ei glient bartneriaid a phartneriaid ariannu fel ei gilydd.

¹ Cyngor Celfyddydau Cymru – Cefnogi Prosiectau Cyfalaf Mawr, 31 Ionawr 2008

Mae'r modd y mae Cyngor y Celfyddydau yn dethol prosiectau cyfalaf mawr ac yn gwario arnynt wedi'i seilio ar reoli risgiau ac mae'n cael ei yrru'n fwy uniongyrchol gan risgiau

5. Mae pob prosiect cyfalaf mawr a gaiff ei gefnogi gan Gyngor y Celfyddydau yn risg, ond mae rhai yn fwy o risg nag eraill. Wrth ddewis pa brosiectau cyfalaf mawr i'w hariannu, defnyddia Cyngor y Celfyddydau brosesau sydd wedi hen sefydlu er mwyn sicrhau cysondeb wrth asesu rhinweddau cynigion prosiectau, sy'n adlewyrchu ei flaenoriaethau strategol. Cadwodd Cyngor y Celfyddydau gysylltiad da â phartneriaid prosiectau drwy gamau datblygu prosiect allweddol ac o ran monitro prosiectau wrth iddynt gael eu hadeiladu ac ar ôl iddynt ddod i ben.
6. Mae Cyngor y Celfyddydau wedi gwella ei weithdrefnau ar gyfer asesu a monitro risgiau yn gynyddol dros y blynyddoedd diwethaf. Mae ei asesiad ei hun o risgiau prosiectau yn seiliedig ar ddadansoddiadau risg ceisiadau grant cyfalaf a chynlluniau wrth gefn; ac mae wedi derbyn bod angen iddo safoni'r dogfennau dadansoddi sensitifrwydd a gyflwynir gan ymgeiswyr. Mae'n rheoli'r risg o gynnydd mewn costau drwy adolygu costau yn ystod cyfnodau allweddol yn natblygiad prosiectau a thrwy gapio ei ddyfarniadau grant terfynol. Mae wedi cyflwyno cofrestrau risg safonol ar gyfer prosiectau cyfalaf mawr o'r cyfnod cyn-tendro; er bod lle i ymestyn y rhain i gynnwys cylch bywyd llawn y prosiect. Mae wedi ymgorffori risgiau prosiect sy'n deillio o'r rhaglen gyfalaf yn ei weithdrefnau rheoli risg corfforaethol ei hun. Ac mae Cyngor y Celfyddydau bellach yn monitro prosiectau cyfalaf oherwydd maint y risg yn hytrach na maint y grant, er bod lle i wella ei asesiad o brosiect am ganolbwyntio'n fwy penodol ar risg.

Mae Cyngor y Celfyddydau'n gweithio mewn partneriaeth â nifer o sefydliadau gwahanol ond dylai roi mwy o arweiniad er mwyn ymateb yn llwyddiannus i heriau'r dyfodol

7. Mae Cyngor y Celfyddydau yn rhoi cymorth ymarferol i'w sefydliadau cleient i ddatblygu a chwblhau eu prosiectau ond mae'n dibynnu arnynt hwy i awgrymu cynigion dichonol, sicrhau arian prosiect o ffynonellau eraill, rheoli eu prosiectau cyfalaf a sicrhau bod gweithgarwch celfyddydol yn parhau i ddigwydd unwaith y bydd y cyfleusterau wedi agor. Mae'n teilwra ei gymorth parhaol fesul achos, gan helpu i gynnig gallu ychwanegol pan fydd angen a phan mae'n fforddiadwy. Mae Cyngor y Celfyddydau yn annog monitro anffurfiol rhwng ymgeiswyr am grantiau a'r rhai sy'n derbyn grantiau ond mae'n derbyn bod angen gwella a ffurfioli'r trefniadau hyn. Mae hefyd yn ystyried dwyn ynghyd y gwaith o fonitro ei glientiaid arian

refeniw a'i glientiaid prosiectau cyfalaf, er mwyn gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ei wariant ar glientiaid.

8. Mae awdurdodau lleol yn bartneriaid allweddol i lawer o brosiectau cyfalaf. Mae gan Gyngor y Celfyddydau drefniadau partneriaeth strategol gydag awdurdodau lleol yng Nghymru ond mae rhwystrau yn eu hatal rhag gweithio'n ymarferol ac mae awdurdodau lleol yn amrywio o ran faint maent yn ei fuddsoddi mewn cyfleusterau celfyddydol a'u cysylltiad â Chyngor y Celfyddydau. O gofio bod yr amgylchedd adnoddau cyfalaf ar gyfer gwaith Cyngor y Celfyddydau a'r awdurdodau lleol yn gyfyngedig, rydym o'r farn y dylai Cyngor y Celfyddydau ganolbwyntio ar ysgogi awdurdodau lleol i fanteisio ar gyfleoedd ariannu Ewropeaidd drwy eu helpu i ddod o hyd i brosiectau addas penodol a hyrwyddo cyfraniad y celfyddydau i adfywio cymunedol yn gyffredinol.
9. Er bod Cyngor y Celfyddydau wedi gwella'r agwedd o gydweithredu gyda Llywodraeth y Cynulliad ar ariannu prosiectau cyfalaf, mae llawer mwy o waith i'w wneud eto. O ran strwythurau, nid oes gan Gyngor y Celfyddydau unrhyw gytundebau cydweithredu strategol cyffredinol gyda phartneriaid ariannu blaenorol sydd bellach yn rhan o Lywodraeth y Cynulliad, ac eithrio'r fframwaith polisi ac adnoddau a gytunwyd gyda'r adran nawdd. O ran prosesau, canfuwyd bod y cydweithio rhwng Cyngor y Celfyddydau a swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO), sef ei bartner ariannu canolog pwysicaf, yn datblygu'n raddol, er bod y cyfundrefnau cydymffurfio gwahanol ar gyfer rheoli arian Ewropeaidd ac arian y Loteri yn heriol. Rydym yn croesawu cytundeb Cyngor y Celfyddydau y dylai roi arweiniad ar brosiectau cyfalaf celfyddydol os yw'n brif bartner ariannu. Mae'r gwelliannau posibl pellach i weithio mewn partneriaeth yn cynnwys rhannu gwybodaeth â phartneriaid ariannu eraill yn rheolaidd, a symleiddio a chydweddu gofynion gwybodaeth.
10. Mae Cyngor y Celfyddydau wrthi'n datblygu ffordd o ddefnyddio ffynonellau ariannu preifat ond mae cryn bellter i fynd eto. Mae'n ofynnol i glient bartneriaid Cyngor y Celfyddydau godi arian ar gyfer prosiectau cyfalaf o'u ffynonellau eu hunain ac o ffynonellau preifat a chânt eu hannog i wneud hynny, ond nid oes gan lawer o sefydliadau bach yn arbennig yr amser na'r cysylltiadau i fynd ar drywydd y ffynonellau hyn. O ganlyniad, bwriad Cyngor y Celfyddydau yw datblygu ei gymorth i glient bartneriaid drwy ddod o hyd i arian preifat gan ymddiriedolaethau a sefydliadau, a denu arian gan gymynroddion neu roddion unigol. Er ein bod yn

annog y fenter hon, rydym o'r farn y gallai Cyngor y Celfyddydau fod wedi gwneud mwy i ddatblygu'r maes hwn yn gynharach.

Nid yw Cyngor y Celfyddydau wedi asesu'r canlyniadau o'i raglen gyfalaf hyd yn hyn a dylai wneud hynny er mwyn targedu'r adnoddau mwy cyfyngedig sydd ganddo yn well

11. Er gwaethaf gwario tua £7 miliwn y flwyddyn dros yr wyth mlynedd diwethaf, mae bylchau'n parhau yn y cyfleusterau celfyddydol a ddarperir, yn arbennig yn gymunedol ac yn genedlaethol. Er nad yw Llywodraeth y Cynulliad wedi cyhoeddi olynedd hyd yn hyn i'w strategaeth ddiwylliant 2002, mae Bwrdd Strategaeth y Celfyddydau yn rhoi mwy o gyfeiriad i Gyngor y Celfyddydau a'i strategaeth gyfalaf. Mae Cyngor y Celfyddydau yn dwyn ynghyd strategaeth gyfalaf ddiwygiedig, strategaethau amrywiol ar gyfer ffurfiau celfyddydol a strategaethau trawsbynciol, i'w hadlewyrchu yn ei gynllun corfforaethol diweddaraf. Yn y cyfamser, oherwydd gostyngiad yn yr arian loteri sydd ar gael, mae Cyngor y Celfyddydau wedi gostwng ei gynllun gwariant rhaglen gyfalaf ar gyfer y pum mlynedd rhwng 2007-08 a 2011-12 i tua £3 miliwn y flwyddyn ac wedi cau'r rhaglen i ymgeiswyr newydd.
12. Mae Cyngor y Celfyddydau yn gwella ei waith monitro prosiectau cyfalaf ar ôl eu cwblhau ond nid yw ei werthusiad o effeithiau prosiectau a'r manteision ehangach yn ddigonol. Mae Cyngor y Celfyddydau yn iawn i ddiogelu ei fuddiannau buddsoddi cyfalaf yn y tymor hwy drwy fonitro a yw'r rhai sy'n derbyn grantiau yn cydymffurfio ag amodau'r grantiau ar ôl i'r prosiectau gael eu cwblhau, drwy broses o hunan-gofnodi gan dderbynwyr grantiau ynghyd â rhaglen gylch o ymweld â chleient sefydliadau. Mae peth lle i wella ar y trefniadau hyn. Ond y siom fwyaf i ni oedd gweld mai ychydig iawn o asesiad ffurfiol o effaith arian cyfalaf ar y celfyddydau a oedd wedi ei gynnal yng Nghymru. Heb raglen drefnus ar gyfer asesu effeithiau prosiectau sydd wedi derbyn grantiau cyfalaf, ni ellir asesu manteision rhaglen gyfalaf Cyngor y Celfyddydau'n llawn, na thargedu ei adnoddau cyfalaf prin i gyfeiriad y blaenoriaethau cywir ar gyfer y dyfodol.

Argymhellion

- (i) Rydym yn cymeradwyo argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol. Credwn y byddant yn mynd i'r afael â phryderon allweddol y cyfeirir atynt yn yr adroddiad hwn, a nodwn fod Cyngor y Celfyddydau eisoes wedi eu derbyn ac wrthi'n datblygu rhai ohonynt. **Gofynnwn i Gyngor y Celfyddydau ymateb i bob un o'r naw o**

argymhellion yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol fel rhan o'u hymateb i'r adroddiad hwn.

- (ii) Mae Cyngor y Celfyddydau yn wynebu risgiau sylweddol wrth geisio ymateb i'r heriau o reoli ei raglen gyfalaf ar gyfer y dyfodol agos. Mae wedi gwella ei weithdrefnau ar gyfer asesu a monitro risgiau yn gynyddol dros y blynyddoedd ond mae lle i Gyngor y Celfyddydau wella ei ffordd o graffu ar gynigion prosiectau. **Rydym yn argymhell bod Cyngor y Celfyddydau yn gwella ei ffyrdd o asesu prosiectau er mwyn sicrhau ei fod yn canolbwyntio mwy ar risgiau, gydag ansawdd a dichonolrwydd yn ddau brif gategori ar gyfer asesu risgiau prosiectau.**
- (iii) Mae perthynas Cyngor y Celfyddydau ag awdurdodau lleol yng Nghymru yn hynod o bwysig, yn arbennig er mwyn meithrin partneriaethau cymunedol ac, mewn meysydd perthnasol, er mwyn gwireddu potensial arian Ewropeaidd ar gyfer adfywio. **Mewn amgylchedd lle mae adnoddau cyfalaf Cyngor y Celfyddydau a'r awdurdodau lleol eu hunain yn gyfyngedig, rydym yn argymhell y dylai Cyngor y Celfyddydau weithio gydag awdurdodau lleol i fanteisio ar gyfleoedd ariannu Ewropeaidd drwy eu cynorthwyo i ddod o hyd i brosiectau celfyddydol addas a hyrwyddo cyfraniad y celfyddydau o ran adfywio cymunedol.**
- (iv) Mae Cyngor y Celfyddydau wrthi'n datblygu ffordd, yn rhy hwyr yn ein barn ni, o gynorthwyo ei sefydliadau cleient bartneriaid i gael gafael ar arian preifat o ffynonellau megis ymddiriedolaethau, sefydliadau, cymynroddion a rhoddion unigol a chorfforaethol. **Rydym yn argymhell bod Cyngor y Celfyddydau yn datblygu strategaeth i gynorthwyo'i sefydliadau cleient i ddefnyddio ffynonellau ariannu preifat.**
- (v) Hyd yn hyn, nid yw Cyngor y Celfyddydau wedi asesu effeithiau na manteision ehangach ei wariant ar brosiectau cyfalaf yn drefnus. Heb werthusiad o'r fath o ganlyniadau, ni all Cyngor y Celfyddydau dargedu ei adnoddau cyfalaf prin yn effeithiol ar y blaenoriaethau cywir yn y dyfodol. **Wrth benderfynu ar gyfeiriad strategol ei raglen gyfalaf ar gyfer y dyfodol, rydym yn argymhell bod Cyngor y Celfyddydau yn rhoi ystyriaeth lawn i'r effeithiau a'r manteision ehangach sy'n deillio o'r prosiectau cyfalaf y mae wedi buddsoddi ynddynt hyd yma.**

Mae'r modd y mae Cyngor y Celfyddydau yn dethol prosiectau cyfalaf mawr ac yn gwario arnynt yn seiliedig ar reoli risgiau ac mae'n cael ei yrru'n fwy uniongyrchol gan risgiau

Mae Cyngor y Celfyddydau yn wynebu heriau a risgiau sylweddol o ran rheoli ei raglen gyfalaf

13. Tynnodd Mr Tyndall sylw at nifer o heriau sy'n wynebu Cyngor y Celfyddydau o ran rheoli ei raglen gyfalaf. Mae'r rhain yn cynnwys sicrhau bod digon o arian refeniw yn bodoli er mwyn sicrhau bod cyfleusterau celfyddydol yn gallu gweithredu'n effeithiol ar ôl agor, gweithio gyda llawer o glientiaid a phartneriaid ariannu ar brosiectau unigol ac ar y rhaglen gyfalaf yn gyffredinol, a sicrhau'r cydbwysedd cywir o ran ansawdd a chostau.²
14. Gan edrych i'r dyfodol, ystyriodd Mr Tyndall yr holl heriau allweddol sy'n gysylltiedig â phrinder adnoddau ariannol. Yr heriau hyn oedd:
 - gostyngiad yn yr arian sydd ar gael ar gyfer prosiectau cyfalaf o'i gymharu â'r hyn oedd ar gael yn y gorffennol, gan arwain at gau'r rhaglen gyfalaf i brosiectau newydd;³
 - dim twf yng nghyllideb refeniw craidd Cyngor y Celfyddydau, gan arwain at fwy o risg o ran dichonolrwydd sefydliadau cleient bartneriaid;⁴
 - yr angen i lenwi bylchau strategol yn y cyfleusterau celfyddydol a ddarperir er bod cyfyngiadau ar adnoddau cyfalaf yn golygu na ellir eu hariannu ar hyn o bryd;⁵ a
 - yr angen i gynnal a gwella'r ystâd adeiledig bresennol, o gofio'r cyfyngiadau ar adnoddau cyfalaf.⁶
15. Roedd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn ei gwneud yn glir bod angen i ddull cyffredinol Cyngor y Celfyddydau o reoli'r heriau a'r risgiau sy'n gysylltiedig â dethol ac ariannu prosiectau mawr ar ei raglen gyfalaf fod yn gadarn bob amser. Er bod y dull hwn wedi bod yn ddigonol i Gyngor y Celfyddydau hyd yn hyn, ein barn yw bod y cyfuniad o'r heriau parhaus a'r heriau newydd yn creu cyfuniad newydd o risgiau sylweddol. Y prif risgiau yw efallai na chaiff yr arian cyfalaf cyfyngedig sydd ar gael ei

² Atodiad A, paragraffau 7 – 15

³ Atodiad A, paragraff 13

⁴ Atodiad A, paragraff 14

⁵ Atodiad A, paragraff 15

⁶ Atodiad A, paragraff 15

dargeddu i gyfeiriad y blaenoriaethau cywir ar gyfer y dyfodol; y gallai diffyg addasrwydd i bwrpas a chyflwr gwael y cyfleusterau celfyddydol presennol nad ydynt wedi elwa ar fuddsoddiad cyfalaf diweddar waethygu os nad yw'r arian cyfalaf yn ddigonol i'w cynnal a'u gwella; ac y gallai rhai cyfleusterau celfyddydol roi'r gorau i weithredu os na all sefydliadau cleient bartneriaid sicrhau digon o ffynonellau ar gyfer arian refeniw.

15. Nodwn fod Cyngor y Celfyddydau wedi dod yn fwyfwy gwyliadwrus o ran dewis y prosiectau a gaiff eu cefnogi ganddo drwy ei raglen gyfalaf a'r partneriaid prosiect y mae'n cydweithio â hwy.⁷ Nodwn hefyd fod Cyngor y Celfyddydau wedi bod yn gweithio i ddod o hyd i ffynonellau ariannu eraill i gyfateb â'r arian Loteri sy'n weddill.⁸ Hyd yn oed os nad oes gan Gyngor y Celfyddydau yr un adnoddau cyfalaf â'r hyn oedd ganddo yn y gorffennol, rydym yn croesawu cadarnhad Mr Tyndall bod y strwythurau, y prosesau a'r bobl yn eu lle i roi sail gadarn ar gyfer y dyfodol er mwyn rheoli'r heriau newydd a'r risgiau sy'n gysylltiedig â hynny yn effeithiol.⁹

Mae pob prosiect cyfalaf mawr a gaiff ei gefnogi gan Gyngor y Celfyddydau yn risg, ond mae rhai yn fwy o risg nag eraill

16. Mae prosiectau cyfalaf mawr yn eu hanfod yn peri risg i sefydliadau cleient Cyngor y Celfyddydau eu datblygu a'u cwblhau, ac iddynt weithredu fel cyfleusterau dichonol ar gyfer digwyddiadau celfyddydol yn y tymor hwy.¹⁰ Gall gymryd llawer o flynyddoedd i glient bartneriaid ddatblygu a gweithredu prosiectau cyfalaf a gall olygu newidiadau i'w cwmpas a'r costau a ragwelwyd.¹¹ Gall arian cyfalaf o ffynonellau ar wahân i Gyngor y Celfyddydau fod yn anodd i glient bartneriaid ei sicrhau yn ogystal â bod yn wastraff amser.¹² Ac, am wahanol resymau, gall y costau gwirioneddol fod yn uwch na'r amcangyfrifon unwaith y bydd y gwaith adeiladu wedi dechrau, fel y dengys yr astudiaethau achos yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol (er enghraifft, prosiectau ym Mhenygraig¹³ a Chasnewydd¹⁴).
17. Roedd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn ystyried pa mor dda roedd Cyngor y Celfyddydau wedi rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â dewis pa brosiectau cyfalaf

⁷ Atodiad A, paragraffau 14 a 29

⁸ Atodiad A, paragraff 15

⁹ Atodiad A, paragraff 17

¹⁰ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 3

¹¹ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 2.7

¹² Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 1.16 – 1.22

¹³ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 2.37; astudiaeth achos F, tudalen 23

¹⁴ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 2.37, astudiaeth achos Q, tudalen 49

mawr i'w hariannu.¹⁵ Mae'n bwysig nodi bod dull Cyngor y Celfyddydau yn cael ei lywio gan strategaeth ac yn dibynnu ar weithio'n dda mewn partneriaeth.¹⁶ Roedd gan Gyngor y Celfyddydau brosesau ar gyfer asesu rhinweddau cynigion prosiectau cyfalaf mawr a oedd wedi hen sefydlu,¹⁷ ac a oedd yn cynnwys ystyried eu pwysigrwydd strategol, eu budd o ran gweithgarwch celfyddydol a'u hansawdd pensaernïol; ac roedd y prosesau hyn ar waith yn drefnus ac yn gyson.¹⁸

18. Un o nodweddion pwysig Cyngor y Celfyddydau wrth ystyried gwariant cyfalaf ers 2002 oedd eglurder a'r awydd i weithredu strategaeth rhaglen gyfalaf glir.¹⁹ Dywedodd Mr Tyndall wrthym fod Cyngor y Celfyddydau bellach, o ganlyniad uniongyrchol i weithredu mwy strategol, yn llawer mwy pwrpasol a rhyngweithiol nag yn ei ddyddiau cynnar fel dosbarthydd Loteri; a'i fod, pan fo prosiect arbennig yn un o flaenoriaethau strategol Cyngor y Celfyddydau, yn ceisio dod o hyd i bartneriaid prosiect a chydweithio'n agos â hwy i geisio sicrhau bod y prosiect yn digwydd.²⁰ Rydym yn croesawu cadarnhad Mr Tyndall na fydd y Cyngor yn dychwelyd at fod yn ddim mwy na safonwr diduedd o geisiadau am arian cyfalaf.²¹ Ac rydym yn croesawu gwaith parhaus Cyngor y Celfyddydau i sicrhau y bydd y meini prawf ar gyfer ei holl grantiau, yn ogystal â'r rhai ar gyfer prosiectau cyfalaf, yn deillio o'i flaenoriaethau strategol.²²
19. Ystyriodd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol hefyd pa mor dda roedd gwariant cyfalaf Cyngor y Celfyddydau o ran prosiectau adeiladu ac adnewyddu adeiladau mawr wedi'i ddiogelu a pha mor dda y caiff y risgiau cysylltiedig eu rheoli.²³ Mabwysiadodd Cyngor y Celfyddydau broses o gynorthwyo prosiectau fesul cam,²⁴ a oedd yn cynnwys cofrestru prosiect yn gynnar, datblygiad cynigion prosiect o ran cynnydd tuag at safonau pensaernïol sefydledig, a rhoi cyngor a chymorth i glientiaid partner fesul achos, er mwyn rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig ag ansicrwydd o ran gofynion ac ymrwymadau ariannol wrth i brosiectau ddatblygu a chael eu gweithredu. Roedd prosesau Cyngor y Celfyddydau ar gyfer asesu dichonolrwydd cynigion prosiectau yn gadarn ac yn cael eu defnyddio'n drylwyr,

¹⁵ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 1.2

¹⁶ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraffau 1.3 – 1.8 a 1.12 – 1.22

¹⁷ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraffau 1.32 – 1.34

¹⁸ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraffau 1.35 – 1.40

¹⁹ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraffau 1.4 – 1.6

²⁰ Atodiad A, paragraff 29

²¹ Atodiad A, paragraffau 45 - 47

²² Atodiad A, paragraff 47

²³ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 2.2

²⁴ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 2.7

gan gynnwys archwilio sefyllfa ariannol a gallu sefydliadol yr ymgeiswyr am grant, a chadernid eu cynlluniau busnes, cynlluniau costau'r prosiect a chynlluniau marchnata.²⁵ Aeth Cyngor y Celfyddydau ati hefyd i gymryd rhan weithredol yn y gwaith o fonitro prosiectau cyfalaf mawr yn ystod y gwaith adeiladu²⁶ ac ar ôl eu cwblhau er mwyn cydymffurfio'n barhaus ag amodau grantiau.²⁷

20. Cawsom ein calonogi ynglŷn â phrosesau ac arferion Cyngor y Celfyddydau gan ganfyddiadau cyffredinol yr Archwilydd Cyffredinol. Ond o gofio bod pob prosiect cyfalaf yn ei hanfod yn risg ac nad oes yr un prosiect yr un fath, roedd gennym ddiddordeb mewn cael gwybod pa ffactorau sy'n gwneud gwahaniaeth rhwng prosiect sy'n llwyddo a phrosiect sy'n methu.²⁸ O ran dau brosiect penodol yn y gorffennol a fethodd â datblygu (Merthyr Tudful²⁹ a Wrecsam³⁰), dywedodd Mr Tyndall wrthym fod y ffactorau a oedd wedi arwain at y methiant yn wahanol yn y ddau achos.³¹ O ran ffactorau llwyddiant, amlinellodd Mr Tyndall ddau fater allweddol i Gyngor y Celfyddydau o ran rheoli risgiau prosiectau:

- bod â'r hyder yng ngallu ei glient bartneriaid, a gafwyd drwy gydweithio â chleient bartneriaid yn ystod y gwaith o gynllunio a datblygu'r prosiectau;³² a
- chraffu trylwyr ar ran Cyngor y Celfyddydau ar gynigion prosiectau cyn gwneud y penderfyniadau terfynol i gymeradwyo prosiectau.³³

Mae Cyngor y Celfyddydau wedi gwella ei weithdrefnau ar gyfer asesu a monitro risgiau yn gynyddol

21. Mae asesiad Cyngor y Celfyddydau o risgiau prosiectau yn seiliedig ar ddadansoddiad yr ymgeisydd grant cyfalaf ei hun o risgiau a chynlluniau wrth gefn,³⁴ gan gynnwys dadansoddiad sensitifrwydd a gynhelir gan ymgeiswyr i ddangos tueddiadau tuag at ansicrwydd o ragdybiaethau allweddol yn eu hachosion busnes.³⁵ Nododd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol bod amrywiaeth yn ansawdd y dadansoddiad sensitifrwydd a gynhelir gan glient bartneriaid wrth

²⁵ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraffau 2.7 – 2.19

²⁶ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraffau 2.42 – 2.47

²⁷ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraffau 2.48 – 2.54

²⁸ Atodiad A, paragraff 25

²⁹ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 1.11; astudiaeth achos B, tudalen 19

³⁰ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 1.11; astudiaeth achos A, tudalen 19

³¹ Atodiad A, paragraff 28

³² Atodiad A, paragraffau 31- 32

³³ Atodiad A, paragraff 32

³⁴ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraffau 2.20 a 2.21

³⁵ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 2.22

gefnogi eu ceisiadau.³⁶ Rydym yn pryderu y gallai'r anghysondeb hwn effeithio ar allu Cyngor y Celfyddydau i asesu risgiau prosiectau.³⁷ Felly, er mwyn ymateb i argymhelliad yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol³⁸, rydym yn falch o ddeall bod Cyngor y Celfyddydau yn bwriadu safoni'r dogfennau dadansoddiad sensitifrwydd a gyflwynir gan ymgeiswyr.³⁹

22. Mae Cyngor y Celfyddydau yn rheoli'r risgiau o gynnydd mewn costau ar brosiectau cyfalaf mawr yn bennaf drwy roi terfyn ar ei ddyfarniadau grant, a thrwy hynny'n trosglwyddo'r risgiau hynny i bartneriaid ariannu eraill a'r sefydliadau sy'n derbyn y grant eu hunain.⁴⁰ Mae Cyngor y Celfyddydau hefyd yn cynnal adolygiadau o gostau yn ystod camau allweddol pob prosiect ac yn mynnu cynnal ymarferiadau 'peirianwaith gwerth' penodol mewn achosion arbennig pan fydd pwysau'n codi oherwydd costau na ragwelwyd. Roedd gennym ddi-ddordeb mewn gwybod a oedd yr angen am ymarferion 'peirianwaith gwerth' yn golygu a fu gwallau posibl yn yr asesiadau gwreiddiol o fanyleb a chostau prosiect ar y prosiectau hyn.⁴¹ Er bod Cyngor y Celfyddydau am sicrhau ei fod yn gosod ei ddyfarniad grant mewn man ble y gallai fod yn gymharol sicr o ran costau prosiect, dywedodd Mr Tyndall wrthym nad oedd yn bosibl dileu'n gyfan gwbl y risg o gynnydd mewn costau.⁴² Ac er gwaethaf yr adolygiadau cost rheolaidd ar bob prosiect, dywedodd Dr Davies wrthym hefyd fod yr ymarferion 'peirianwaith gwerth' manwl yn digwydd ar ôl y tendr, a oedd eu hangen pan fyddai tendrau adeiladu wedi cael eu cyflwyno yn uwch o lawer na'r disgwyl.⁴³ Rydym yn disgwyl i Gyngor y Celfyddydau barhau i fod yn effro i'r gwahanol ffactorau sy'n cynyddu'r costau ar brosiectau cyfalaf mawr.
23. Soniodd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol bod Cyngor y Celfyddydau wedi gwella'i waith monitro mewnol yn 2006-07 o ran risgiau ar brosiectau cyfalaf mawr drwy gyflwyno dogfennau cofrestru risg safonol ar gyfer prosiectau a gafodd £100,000 neu fwy.⁴⁴ Argymhellodd yr adroddiad y dylai cofrestr risgiau prosiectau Cyngor y Celfyddydau fod yn weithredol dros gyloch bywyd llawn y prosiect, i gydnabod y ffaith y gall risgiau ddod yn amlwg yn gynnar, yn ystod y gwaith

³⁶ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 2.22

³⁷ Atodiad A, paragraff 105

³⁸ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 24 ii b

³⁹ Atodiad A, paragraffau 106 - 108

⁴⁰ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 2.38

⁴¹ Atodiad A, paragraff 126

⁴² Atodiad A, paragraff 127 a 128

⁴³ Atodiad A, paragraff 129

⁴⁴ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 2.30

datblygu, yn ogystal â bod yn ffordd o adolygu a dadansoddi ffactorau risg sy'n llesteirio o blaid ac yn erbyn llwyddiannau mewn gwahanol amgylchiadau.⁴⁵ Rydym yn cymeradwyo'r argymhelliad hwn.

24. Fel rhan o system Cyngor y Celfyddydau o reolaeth fewnol mae ganddo bolisi a phrosesau i reoli ei risgiau gweithrediadau ei hun.⁴⁶ Er bod tîm cyfalaf Cyngor y Celfyddydau yn gyfrifol am reoli risgiau sy'n gysylltiedig â phrosiectau cyfalaf unigol, ni chafodd y risgiau hyn eu hymgorffori'n ffurfiol i system gorfforaethol Cyngor y Celfyddydau o reoli risgiau.⁴⁷ Nodwn fod Cyngor y Celfyddydau wedi creu swydd newydd i sicrhau bod y gwaith o reoli risg yn dod yn fwy safonol ym mhob agwedd ar waith y cyngor; ac rydym yn croesawu cadarnhad Mr Tyndall bod Cyngor y Celfyddydau bellach wedi ymgorffori risgiau prosiect sy'n deillio o'r rhaglen gyfalaf i'r system gorfforaethol ffurfiol o reoli risgiau.⁴⁸
25. Nododd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol bod prosesau Cyngor y Celfyddydau ar gyfer asesu ceisiadau a monitro prosiectau wedi eu targedu at drothwy sy'n gysylltiedig â swm yr arian a roddodd i brosiectau cyfalaf.⁴⁹ Roeddem yn falch iawn o glywed gan Mr Tyndall bod Cyngor y Celfyddydau yn monitro prosiectau cyfalaf bellach yn ôl y risg yn hytrach na maint y grant.⁵⁰ Fodd bynnag, cawsom ein siomi ei bod yn ymddangos nad yw Cyngor y Celfyddydau wedi mabwysiadu ffordd o asesu prosiectau yn ôl y risg hefyd. Rydym yn cymeradwyo awgrym yr Archwilydd Cyffredinol bod mwy o le i wella asesuadau prosiect presennol Cyngor y Celfyddydau drwy wahanu ei feini prawf ar gyfer asesu yn ddwy brif ran, sef ansawdd y prosiect a dichonolrwydd y prosiect.⁵¹

Mae Cyngor y Celfyddydau'n gweithio mewn partneriaeth â nifer o sefydliadau gwahanol ond dylai gynnig mwy o arweiniad er mwyn ymateb yn llwyddiannus i heriau'r dyfodol

Mae Cyngor y Celfyddydau yn cynnig cefnogaeth ymarferol i'w sefydliadau cleient ddatblygu a chwblhau eu prosiectau

26. Mae cleientiaid Cyngor y Celfyddydau yn cynnwys sefydliadau celfyddydol, awdurdodau lleol, sefydliadau addysg uwch, sefydliadau cymunedol a gwirfoddol a chyrrff eraill. Mae Cyngor y Celfyddydau yn dibynnu ar y cyrrff hyn i gyflwyno

⁴⁵ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraffau 24 ii a a 2.30

⁴⁶ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 2.28

⁴⁷ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 2.29; Atodiad A, paragraffau 114 - 118

⁴⁸ Atodiad A, paragraff 116

⁴⁹ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 2.31

⁵⁰ Atodiad A, paragraff 124

⁵¹ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 1.41 a Ffigur 5, tudalen 31

prosiectau dichonol ar gyfer prosiectau sy'n cynnwys ei raglen gyfalaf, i sicrhau arian prosiect o ffynonellau eraill, i reoli camau cynllunio, datblygu ac adeiladu'r prosiectau a sicrhau bod y gweithgareddau celfyddydol yn parhau unwaith y bydd y cyfleusterau wedi agor.⁵²

27. Gofynnwyd i Mr Tyndall beth yw nodweddion allweddol partneriaeth waith dda â'r sefydliadau cleient hyn.⁵³ Dywedodd Mr Tyndall wrthym nad y partneriaid rhwyddaf oedd y partneriaid gorau o reidrwydd; ond bod y partneriaethau gorau yn cael eu gyrru gan bobl oedd â chyfuniad o angerdd dros yr hyn roeddynt yn ceisio'i gyflawni ynghyd â gallu rheoli eang: yn gryno, cyflawnwyr â gweledigaeth.⁵⁴ Chwiliodd Cyngor y Celfyddydau am dri pheth fel dangosyddion o ran y gallu i weithio'n llwyddiannus â sefydliadau cleient bartneriaid: arweiniad artistig a chreadigol, gallu i reoli a threfniadau llywodraethu da.⁵⁵
28. Roedd gennym ddiddordeb hefyd yn y camau roedd Cyngor y Celfyddydau yn eu cymryd pe bai'r bartneriaeth â chleient bartner yn dechrau diffygio.⁵⁶ Dywedodd Mr Tyndall wrthym fod ymateb cyngor y Celfyddydau yn amrywio yn dibynnu ar yr amgylchiadau, ond byddai fel arfer yn golygu cwrdd â'r cleient bartner i drafod y broblem a'u cynorthwyo i ddod o hyd i'r ateb.⁵⁷ Mewn rhai achosion, roedd yn golygu dod o hyd i bartner newydd, neu ddod o hyd i ffordd wahanol gyda'r partner, neu geisio gwella ffordd y partner o wneud pethau, neu helpu i greu'r gallu i drefnu. Dywedodd Mr Tyndall wrthym fod yr her i glient bartneriaid yn aml yn y gorffennol yn ymwneud â diffyg amser o ran rheoli prosiect cyfalaf mawr ar ben eu swydd ar y pryd.⁵⁸ Lle nad oes gan y bobl sy'n darparu'r prosiect cyfalaf ddigon o allu i wneud iddo weithio, mae Cyngor y Celfyddydau yn eu cynorthwyo drwy helpu i ddarparu'r gallu hwnnw.
29. Mae swyddogion Cyngor y Celfyddydau yn cymryd rhan yng ngwaith cynllunio a datblygu pob prosiect cyfalaf mawr yn gynnar er mwyn helpu ymgeiswyr i wella cadernid a gwirionedd y cynigion sydd ganddynt ar gyfer y prosiect; a helpu Cyngor y Celfyddydau i ddod o hyd i risgiau wrth ddatblygu prosiectau a mynd i'r afael â hwy, megis bod yn or-uchelgeisiol, rhagolygon costau cyfalaf afrealistig, effeithiau costau rhedeg gor-uchelgeisiol a manteision prosiect nad ydynt wedi'u diffinio'n

⁵² Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 1.12

⁵³ Atodiad A, paragraff 45

⁵⁴ Atodiad A, paragraff 48

⁵⁵ Atodiad A, paragraff 49

⁵⁶ Atodiad A, paragraff 50

⁵⁷ Atodiad A, paragraff 51

⁵⁸ Atodiad A, paragraff 52

dda.⁵⁹ Yn ystod y broses o asesu'r prosiect, bydd Cyngor y Celfyddydau yn asesu gallu trefniadol yr ymgeisydd i reoli'i brosiectau cyfalaf a darparu'r rhaglenni celfyddydol arfaethedig ar ôl cwblhau'r prosiect.⁶⁰ Ac unwaith y bydd prosiect wedi cyrraedd y cam adeiladu, mae Cyngor y Celfyddydau yn cefnogi'r cleient bartneriaid fesul achos, gan ddefnyddio cronfa o gynghorwyr proffesiynol.⁶¹ Mae hyn wedi cynnwys ariannu rheolwyr prosiect proffesiynol, codwyr arian neu ymgynghorwyr pan fo angen.

30. Mae Cyngor y Celfyddydau yn annog ymgeiswyr am grantiau cyfalaf mawr i gysylltu â sefydliadau tebyg yng Nghymru sydd wedi bod drwy'r broses o wneud ceisiadau am arian cyfalaf a rheoli'r gwaith o ddatblygu ac adeiladu eu prosiectau eu hunain.⁶² Gan fod sefydliadau cleient bartneriaid Cyngor y Celfyddydau ar y cyfan wedi cael y profiad o reoli'r gwaith o ddatblygu a chwblhau eu prosiectau mawr yn anodd a bod hyn wedi rhoi eu sgiliau a'u hadnoddau ar brawf, gofynnwyd beth oedd Cyngor y Celfyddydau yn ei wneud i fod yn fwy rhagweithiol i hwyluso'r gwaith o ddysgu rhwng sefydliadau.⁶³ Er bod Cyngor y Celfyddydau wedi annog mentora anffurfiol hyd yn hyn, dywedodd Dr Davies wrthym fod y Cyngor yn cydnabod yr angen i ystyried sut y gallai'r trefniadau hyn gael eu gwella a'u ffurfioli.⁶⁴ Rydym yn croesawu cadarnhad Dr Davies y bydd Cyngor y Celfyddydau yn datblygu argymhelliad yr Archwilydd Cyffredinol yn y maes hwn.
31. Mae Cyngor y Celfyddydau hefyd wedi cynnal rhaglen beilot o grantiau refeniw i helpu sefydliadau sy'n gwneud ceisiadau am grantiau cyfalaf i fod yn fwy cynaliadwy wrth weithredu, gan roi trefn ar yr hyn a oedd yn y gorffennol yn gyfres o grantiau ar hap at ddibenion adeiladu gallu neu sefydlogi ariannol.⁶⁵ Roeddem yn falch o glywed gan Mr Tyndall fod y rhaglen hon wedi bod yn llwyddiannus, gan arwain at arian refeniw ychwanegol i nifer o sefydliadau.⁶⁶ Ond roeddem yn siomedig o glywed bod y rhaglen hon wedi dod i ben,⁶⁷ er gwaethaf ei llwyddiant. Serch hynny, nodwn fod Cyngor y Celfyddydau yn cynnwys dyfarniadau adeiladu gallu i reoli prosiect, yn arbennig fel rhan o rai dyfarniadau grant cyfalaf

⁵⁹ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 2.9

⁶⁰ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 2.13

⁶¹ Atodiad A, paragraff 33

⁶² Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 1.34

⁶³ Atodiad A, paragraff 83

⁶⁴ Atodiad A, paragraff 84

⁶⁵ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 2.18

⁶⁶ Atodiad A, paragraff 102

⁶⁷ Atodiad A, paragraff 104

cyffredinol.⁶⁸ Rydym yn dibynnu ar Gyngor y Celfyddydau i sicrhau ei fod yn rheoli'r risgiau posibl i'w raglen gyfalaf a allai ddeillio o'r ffaith ei fod wedi dileu'r rhaglen gelfyddydau cynaliadwy o ariannu refeniw.

32. Dangosodd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol y gydberthynas a'r gyd-ddibyniaeth rhwng rhaglenni arian cyfalaf ac arian refeniw Cyngor y Celfyddydau.⁶⁹ Gofynnwyd i Mr Tyndall sut roedd yn sicrhau bod Cyngor y Celfyddydau yn cael y gwerth gorau am arian, yn y cylch, o'r gwariant cyfunol hwn ar sefydliadau cleient bartneriaid.⁷⁰ Pwysleisiodd Mr Tyndall bod Cyngor y Celfyddydau yn monitro'r cleientiaid a gaiff arian refeniw a'r prosiectau cyfalaf a gaiff eu cefnogi ganddo. Drwy drefniadau ar wahân, mae hyn yn rhoi golwg gyflenwol a chyfannol o'r hyn a gaiff ei glient bartneriaid am yr arian a roddir iddynt⁷¹. Nodwn fod Cyngor y Celfyddydau wedi bod yn trafod rhinweddau dwyn yr holl drefniadau monitro cleientiaid mewn un fframwaith gyda Swyddfa Archwilio Cymru ac rydym yn cefnogi'r camau hyn, ar y ddealltwriaeth y dylai wella asesiad Cyngor y Celfyddydau o effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ei wariant ar glientiaid.

Mae gan Gyngor y Celfyddydau drefniadau partneriaeth strategol gydag awdurdodau lleol ond mae rhwystrau yn eu hatal rhag gweithio'n ymarferol

33. Noda adroddiadau Adolygiad Celfyddydau Cymru⁷² a'r Archwilydd Cyffredinol⁷³ fod perthynas Cyngor y Celfyddydau ag awdurdodau lleol yng Nghymru yn arbennig o bwysig. Mae gan Gyngor y Celfyddydau gytundeb partneriaeth strategol gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ac mae'n gwahodd tri uwch gynrychiolydd o bob awdurdod lleol i eistedd ar ei dri Phwyllgor Rhanbarthol. Ond mae'r buddsoddiad a roddir gan awdurdodau lleol mewn cyfleusterau celfyddydol yn amrywio, o gofio'r gystadleuaeth sydd am flaenoriaethu adnoddau ariannol a'r ffaith bod buddsoddiad yn y celfyddydau wedi bod yn fater o ddisgresiwn iddynt. Roedd gennym ddiddordeb felly ym mha mor dda roedd y trefniadau partneriaethau strategol yn gweithio'n ymarferol.⁷⁴

⁶⁸ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 2.19

⁶⁹ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraffau 2.24 – 2.27

⁷⁰ Atodiad A, paragraff 109

⁷¹ Atodiad A, paragraffau 110 a 111

⁷² Cyrchddull Allwedd Ddeuol Datblygiad Strategol y Celfyddydau yng Nghymru, Tachwedd 2006, paragraffau 1.39, 5.2 a 5.12

⁷³ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraffau 1.23 a 1.24

⁷⁴ Atodiad A, paragraff 53

34. Dywedodd Mr Tyndall wrthym⁷⁵ fod Cyngor y Celfyddydau yn cwrdd dair gwaith y flwyddyn â phrif swyddogion perthnasol yr awdurdodau lleol ac â swyddogion o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar faterion megis strategaeth gyfalaf Cyngor y Celfyddydau a materion strategol eraill. Fodd bynnag, mae sefyllfa'r prif swyddogion hyn o fewn eu hawdurdodau lleol wedi tueddu i ddod yn llai pwysig a dylanwadol gyda threigl amser. Roedd nifer yr uwch swyddogion o awdurdodau lleol a oedd yn derbyn y gwahoddiad ac yn mynychu Pwyllgorau Rhanbarthol Cyngor y Celfyddydau yn amrywio, ond cyfarfu swyddogion rhanbarthol Cyngor y Celfyddydau ei hun â swyddogion awdurdodau lleol ar wahân i drafod amrywiaeth o faterion. Pan wnaed newidiadau i gynigion ariannu a phenderfyniadau ar brosiectau arbennig, byddai swyddogion Cyngor y Celfyddydau yn cwrdd â'r awdurdod lleol.⁷⁶ A chyfarfu Mr Tyndall ei hun â phrif weithredwyr awdurdodau lleol i drafod materion o ddiddordeb arbennig.⁷⁷
35. Gofynnwyd i Mr Tyndall hefyd a oedd yn realistig neu'n debygol i ddisgwyl mwy o fuddsoddiad cyfalaf yn y celfyddydau gan awdurdodau lleol.⁷⁸ Gan fod pwysau ar gyllidebau cyfalaf awdurdodau lleol a'u bod yn cael eu cyfeirio'n bennaf at flaenoriaethau eraill (megis ysgolion), barn Mr Tyndall oedd ei bod yn debygol mai'r sail fwyaf tebygol ar gyfer partneriaethau prosiect fyddai'r rhai sy'n cynnwys arian Ewropeaidd.⁷⁹ Yn hyn o beth, roedd gennym ddiddordeb pellach yn y cysylltiadau rhwng ymdrechion celfyddydol ac adfywio cymunedol fel sail ar gyfer partneriaethau lleol.⁸⁰ Dywedodd Mr Tyndall fod angen partneriaethau lleol ar gynlluniau lleol er mwyn iddynt lwyddo, ond y gwir yw bod gwariant cyfalaf awdurdodau lleol ar y celfyddydau yn isel ac yn crebachu ymhellach.⁸¹
36. Rydym yn nodi mai un o amcanion penodol cytundeb partneriaeth strategol Cyngor y Celfyddydau â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yw cryfhau'r achos dros fuddsoddi mewn diwylliant a'r celfyddydau fel gyrrwr newid economaidd a chymdeithasol.⁸² Clywsom gan Mr Tyndall sut mae cymorth rhaglen gyfalaf Cyngor y Celfyddydau yn galluogi pobl mewn cymunedau ledled Cymru i fwynhau'r celfyddydau, a hefyd y manteision y gall cymunedau eu cael o hynny; adfywio

⁷⁵ Atodiad A, paragraff 54

⁷⁶ Atodiad A, paragraff 55

⁷⁷ Atodiad A, paragraff 56

⁷⁸ Atodiad A, paragraff 64

⁷⁹ Atodiad a, paragraff 65

⁸⁰ Atodiad A, paragraff 81

⁸¹ Atodiad A, paragraff 82

⁸² Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 1.23

cymunedau yn gyffredinol.⁸³ O gofio'r amgylchedd adnoddau cyfalaf cyfyngedig sydd gan Gyngor y Celfyddydau ac awdurdodau lleol i weithredu ynddynt, mae lle i Gyngor y Celfyddydau wneud mwy gydag awdurdodau lleol o ran manteisio ar gyfleoedd ariannu Ewropeaidd.

Er bod Cyngor y Celfyddydau wedi gwella'r agwedd o gydweithredu gyda Llywodraeth y Cynulliad ar ariannu prosiectau cyfalaf, mae llawer mwy o waith i'w wneud eto

37. Un o amcanion trawsbynciol rhaglen gyfalaf Cyngor y Celfyddydau yw ceisio manteisio ar gyfleoedd i ddenu Arian Ewropeaidd.⁸⁴ O holl brif bartneriaid ariannu canolog Cyngor y Celfyddydau, gellir dadlau mai Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) yw'r pwysicaf; ac, fel y cawsom ar ddeall gan Mr Tyndall, WEFO hefyd yw'r mwyaf heriol oherwydd gofynion ariannu Ewropeaidd.⁸⁵ Gwnaethom ymholiadau am y strwythurau a'r prosesau sydd ar waith ar gyfer cydweithredu rhwng partneriaid ariannu mawr, yn arbennig WEFO.
38. Nododd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol bod Cyngor y Celfyddydau a'i brif bartneriaid ariannu canolog yn cytuno bod lle i wella o ran cydweithredu⁸⁶ a bod Cyngor y Celfyddydau eisoes wedi cymryd camau i wella ei gysylltiadau strategol a gweithredol â WEFO yn arbennig.⁸⁷ Nodwyd hefyd, er bod Cyngor y Celfyddydau wedi cael cytundebau cydweithredu strategol gyda rhai cyrff cyhoeddus yn y gorffennol ar gyfer sectorau ac is-raglenni penodol, nad oes ganddo gytundebau cyffredin gyda'u gweithredwyr newydd o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru, ac eithrio'r fframwaith polisi ac adnoddau a gytunwyd gyda'r adran nawdd ei hun (yr Adran Materion Gwledig a Threftadaeth). Roedd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn argymhell y dylai Cyngor y Celfyddydau lunio cytundebau partneriaeth strategol gyda phartneriaid ariannu allweddol o fewn Llywodraeth y Cynulliad, er mwyn gwella'r wybodaeth am flaenoriaethau rhaglenni ei gilydd a phrosesau rheoli a hwyluso'r gwaith o gydweithredu ar brosiectau unigol.⁸⁸ Rydym yn cymeradwyo'r argymhelliad hwn.
39. Argymhellodd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol hefyd y dylai Cyngor y Celfyddydau arwain fel partner ar brosiectau cyfalaf celfyddydol a phrosiectau sy'n ymwneud â'r celfyddydau pan fo'n brif bartner ariannu, er mwyn gwella'r cydlyniant

⁸³ Atodiad A, paragraff 24

⁸⁴ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 1.26

⁸⁵ Atodiad A, paragraff 73

⁸⁶ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 1.28

⁸⁷ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 1.26

⁸⁸ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 24 i a

rhwng prif bartneriaid ariannu a lleihau'r baich gweinyddol ar ymgeiswyr a derbynwyr grantiau.⁸⁹ Rydym yn cydnabod y byddai hyn angen cymeradwyaeth yr adran o fewn Llywodraeth y Cynulliad sy'n noddi Cyngor y Celfyddydau (sef yr Adran Materion Gwledig a Threftadaeth) a chytundeb y partneriaid ariannu allweddol eraill.⁹⁰ Roeddem yn falch o gael ar ddeall bod Cyngor y Celfyddydau eisoes wedi arwain ar nifer o brosiectau cyfalaf a bod Mr Tyndall wedi cymeradwyo'r argymhelliad hwn yn llawn.⁹¹

40. Roedd gennym ddiddordeb hefyd mewn cael ar ddeall beth yn union a gaiff ei wneud i wella'r prosesau ar gyfer cydweithredu â phartneriaid ariannu canolog yn ymarferol.⁹² Dywedodd Mr Tyndall wrthym fod Cyngor y Celfyddydau wedi bod yn llawer mwy cytûn yn ddiweddar wrth weithio gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru ar brosiectau cyfalaf, gan rannu eu hasesiadau o gynlluniau busnes a monitro'r gwaith o adeiladu prosiectau.⁹³ Nid oedd mor syml cydweithio â WEFO yn arbennig, am fod y gofynion cydymffurfio technegol yn wahanol ar gyfer arian Ewropeidd ac arian y Loteri.⁹⁴ Roedd gofynion archwilio ar Gyngor y Celfyddydau hefyd yn aml yn golygu bod angen iddo osod gofynion mwy llym ar y rhai a dderbyniodd grantiau na phartneriaid ariannu eraill.⁹⁵ Fodd bynnag, dywedodd Mr Tyndall wrthym hefyd fod Cyngor y Celfyddydau wedi creu swydd i weithio ar ddatblygu cynigion ar gyfer ariannu Ewropeidd,⁹⁶ ymysg pethau eraill. Dywedodd Dr Davies wrthym fod lle i Gyngor y Celfyddydau wneud mwy gyda'i bartneriaid canolog yn gyffredinol o ran ystyried manylion y ffordd y caiff y gwaith o ariannu prosiectau cyfalaf ei reoli ganddynt, er mwyn cydweddu gofynion perthnasol a bod o fudd i ymgeiswyr am grantiau.⁹⁷
41. O'r ymatebion amrywiol, roedd yn amlwg i ni fod Mr Tyndall a Dr Davies yn sensitif i heriau a oedd yn wynebu cleient bartneriaid a'r angen i wneud pethau'n haws i ymgeiswyr a derbynwyr grantiau wrth ymdrin â phartneriaid ariannu gwahanol ar yr un prosiect.⁹⁸ Cawsom ein calonogi o glywed bod posibilrwydd mawr, ym marn Mr Tyndall, i symleiddio prosesau sy'n gysylltiedig â cheisiadau grant a monitro

⁸⁹ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 24 i b

⁹⁰ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 1.31

⁹¹ Atodiad A, paragraff 69

⁹² Atodiad A, paragraff 66

⁹³ Atodiad A, paragraff 72

⁹⁴ Atodiad A, paragraffau 73 a 135

⁹⁵ Atodiad A, paragraff 135

⁹⁶ Atodiad A, paragraff 78

⁹⁷ Atodiad A, paragraff 71

⁹⁸ Atodiad A, paragraffau 69, 71, 134

prosiectau, yn arbennig o ran ariannu cyfalaf uniongyrchol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.⁹⁹ Ond cawsom ein siomi o glywed bod Mr Tyndall yn credu bod y gweithdrefnau cydymffurfio a oedd yn hollol wahanol rhwng arian Ewropeaidd ac arian y Loteri yn annhebygol o arwain at un ffurflen i ymgeiswyr ei chwblhau; er ein bod yn falch o glywed y byddai Cyngor y Celfyddydau yn ymchwilio i hyn gyda WEFO unwaith y byddai'r trefniadau pendant ar gyfer cael gafael ar y cronfeydd strwythurol newydd Ewropeaidd ar waith.¹⁰⁰ Ar y cyfan, disgwyliwn i Gyngor y Celfyddydau hwyluso'r gwelliannau posibl a nodwyd yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol. Roedd llawer ohonynt yn waith ar droed.

Ar y cyfan, nid yw'r ffyrdd y mae Cyngor y Celfyddydau yn cael gafael ar ffynonellau ariannu preifat wedi datblygu'n llawn

42. Mae'n ofynnol i glientiaid Cyngor y Celfyddydau godi arian ar gyfer prosiectau cyfalaf o'u hadnoddau eu hunain ac o ffynonellau preifat yn ogystal â Chyngor y Celfyddydau ei hun a chyrrff ariannu mawr eraill,¹⁰¹ a chânt eu hannog i wneud hynny. Er bod llawer o sefydliadau cleient Cyngor y Celfyddydau yng Nghymru yn gymharol dda o ran codi arian, profiad y Cyngor yw y gallai mwy gael ei wneud i sicrhau cyfraniadau ariannol gan ymddiriedolaethau a sefydliadau.¹⁰² Nid oes gan sefydliadau bach, yn arbennig, yr amser na'r cysylltiadau i fynd ar drywydd y posibilïadau hyn. Problem arall i Gymru ar ben hyn o ran arian y sector preifat yw nad yw pencadlysoedd llawer o gorfforaethau wedi'u lleoli yma, felly nid yw rhoddion corfforaethol yma ond yn rhan fach o'r hyn ydyw mewn ardaloedd megis de ddwyrain Lloegr.¹⁰³
43. Dywedodd Mr Tyndall wrthym fod rhywfaint o le i ddatblygu o ran denu arian o gymynroddion a rhoi gan unigolion, a bod gan Gyngor y Celfyddydau ran i'w chwarae o ran cynorthwyo sefydliadau i chwilio am arian a reolir gan ymddiriedolaethau a sefydliadau.¹⁰⁴ O ganlyniad, bwriad Cyngor y Celfyddydau, cyn bo hir, yw dod o hyd i arian preifat o ymddiriedolaethau a sefydliadau a datblygu ffyrdd o annog pobl sydd â diddordeb yn y celfyddydau i ystyried y celfyddydau yn eu hewyllys. Rydym yn croesawu'r fenter hon ar ran Cyngor y Celfyddydau ond rydym o'r farn y gallai fod ychydig yn rhy hwyr. Mae hefyd yn ymddangos yn fwy fel enghraifft o Gyngor y Celfyddydau yn ymateb i gyfyngiadau

⁹⁹ Atodiad A, paragraff 134

¹⁰⁰ Atodiad A, paragraff 135 a 136

¹⁰¹ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 1.16

¹⁰² Atodiad A, paragraff 78

¹⁰³ Atodiad A, paragraff 100

¹⁰⁴ Atodiad A, paragraff 78

ariannol presennol yn hytrach na chymryd rhan weithredol yn y gwaith o ddatblygu ffordd o helpu i gyfeirio arian preifat, yn arbennig o gofio bod Cyngor y Celfyddydau wedi cael nifer o gymynroddion yn y gorffennol¹⁰⁵ a ddylai fod wedi dangos y ffordd.

Nid yw Cyngor y Celfyddydau wedi asesu'r canlyniadau o'i raglen gyfalaf hyd yn hyn a dylai wneud hynny er mwyn targedu'r adnoddau mwy cyfyngedig sydd ganddo yn well

Mae Cyngor y Celfyddydau wedi gwneud cynnydd tuag at gyflawni amcanion gwreiddiol ei raglen gyfalaf ond mae bylchau yn y ddarpariaeth yn parhau

44. Mae adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi amcanion a blaenoriaethau rhaglen gyfalaf Cyngor y Celfyddydau ac mae'n crynhoi'r cynnydd graddol y mae Cyngor y Celfyddydau wedi'i wneud ers 1999 tuag at eu cyflawni.¹⁰⁶ Gofynnwyd i Mr Tyndall sut roedd Cyngor y Celfyddydau wedi sicrhau bod blaenoriaethau strategol ei raglen gyfalaf ei hun wedi cael ei chyfochri â rhai Llywodraeth y Cynulliad, a sut roedd yn ystyried y bydd amcanion a blaenoriaethau strategol Cyngor y Celfyddydau ar gyfer buddsoddi cyfalaf yn datblygu dros y pump i'r deng mlynedd nesaf.¹⁰⁷ Dywedodd Mr Tyndall mai hanfod y cyfochri strategol gwreiddiol oedd bod dogfen strategol Cyngor y Celfyddydau ei hun (*Cefnogi Creadigrwydd*)¹⁰⁸ yn seiliedig ar ddogfen strategaeth ddiwylliannol flaenorol Llywodraeth y Cynulliad (*Dyfodol Creadigol*)¹⁰⁹ yn y lle cyntaf.¹¹⁰ O ganlyniad, gweithiodd Cyngor y Celfyddydau yn agos gyda'r Gweinidog a'r adran sy'n noddi'r Cyngor ar flaenoriaethau penodol wrth iddynt ddod i'r amlwg. Roedd trefniadau cynllunio cyfalaf hefyd wedi'u cynnwys yng nghynllun gweithredol Cyngor y Celfyddydau, gan gytuno arnynt yn flynyddol gyda Llywodraeth y Cynulliad. Roedd Bwrdd Strategol y Celfyddydau bellach yn cynnig fforwm i sicrhau gweledigaeth strategol gyffredinol gytûn ac roedd Mr Tyndall yn disgwyl iddo roi cyfeiriad ar gyfer rhaglen gyfalaf Cyngor y Celfyddydau yn y dyfodol.¹¹¹
45. Hyd yn hyn, nid yw Llywodraeth y Cynulliad wedi darparu dilyniant i'w strategaeth ddiwylliannol o 2002, '*Dyfodol Creadigol*'.¹¹² Nodwn, fodd bynnag, fod ymgynghoriad Cyngor y Celfyddydau ar strategaethau ffurfiau celf newydd wedi

¹⁰⁵ Atodiad A, paragraffau 78 a 100

¹⁰⁶ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraffau 1.3 – 1.11, ffigurau 1 a 2

¹⁰⁷ Atodiad A, paragraffau 18 a 22

¹⁰⁸ Cefnogi Creadigrwydd, Cyngor Celfyddydau Cymru, Ebrill 2002

¹⁰⁹ Dyfodol Creadigol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Ionawr 2002

¹¹⁰ Atodiad A, paragraff 19

¹¹¹ Atodiad A, paragraff 21

¹¹² Atodiad A, paragraff 19

